



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2013 Rhif 1141 (Cy.121)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Derbyniadau Ysgol  
(Meintiau Dosbarthiadau Babanod)  
(Cymru) 2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn, at ddibenion adran 1 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ar feintiau dosbarthiadau babanod mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998 a Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009 (rheoliad 3), gan ychwanegu categoriâu newydd at y disgylion a eithrir a chan newid yr amgylchiadau pan fo disgylion yn peidio â bod yn ddisgyblion a eithrir.

Y terfyn a osodir yw uchafswm o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth babanod ar unrhyw adeg pan gynhelir sesiwn addysgu gyffredin gan un athro neu athrawes ysgol (neu, os cynhelir y sesiwn gan fwy nag un athro neu athrawes ysgol, uchafswm o 30 o ddisgyblion am bob athro neu athrawes ysgol) (rheoliad 4).

Fodd bynnag, os na ellir darparu addysg i rai mathau o blant ("disgyblion a eithrir") mewn dosbarth babanod yn yr ysgol lle nad yw'r nifer disgylion yn uwch na'r terfyn heb gymryd cam perthnasol a fyddai'n niweidiol i addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau, rhaid peidio â chyfrif y plant hynny at y diben o benderfynu pa un a yw'r nifer disgylion yn uwch na'r terfyn o 30 o ddisgyblion ai peidio (rheoliad 5, yn yr Atodlen).

Disgylion a eithrir yw—

- (a) plant y mae eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn pennu y dylid eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol;

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 No. 1141 (W.121)**

**EDUCATION, WALES**

The School Admissions (Infant Class Sizes) (Wales) Regulations 2013

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations impose, for the purpose of section 1 of the School Standards and Framework Act 1998, a limit on class sizes for infant classes at maintained schools in Wales. They revoke and replace the Education (Infant Class Sizes) (Wales) Regulations 1998 and the Education (Infant Class Sizes) (Wales) (Amendment) Regulations 2009 (regulation 3), adding new categories to the excepted pupils and changing the circumstances in which pupils cease to be excepted.

The limit imposed is the maximum of 30 pupils in an infant class at anytime while an ordinary teaching session is conducted by a single school teacher (or, where the session is conducted by more than one school teacher, a maximum of 30 pupils for every teacher) (regulation 4).

However, where certain types of children ("excepted pupils") cannot be provided with education at the school in an infant class in which the limit is not exceeded without a relevant measure being taken which would prejudice efficient education or the efficient use of resources, those children are not to be counted for the purposes of ascertaining whether or not the limit of 30 pupils is exceeded (regulation 5 in the Schedule).

Excepted pupils are—

- (a) children whose statements of special educational needs specify that they should be educated at the school concerned and who were admitted to the school outside the normal admission round;

- (b) plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, neu sydd bellach wedi peidio â derbyn gofal ("plant a oedd gynt yn derbyn gofal") o ganlyniad i'w mabwysiadu, neu eu lleoli gyda theulu neu gael gwarcheidiad arbennig, ac a dderbynir i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol;
- (c) plant y gwrthodwyd eu derbyn i'r ysgol yn wreiddiol, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddiweddarach, y tu allan i gylch derbyn arferol, naill ai ar gyfarwyddyd Panel Apelau Derbyn neu oherwydd bod y person a oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod bod camgymeriad wedi ei wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol;
- (d) plant y mae'r awdurdod lleol cynhaliol wedi cadarnhau nad oes modd iddynt gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod naill ai wedi symud i'r ardal y tu allan i'r cylch derbyn arferol, neu'n dymuno cael addysg grefyddol, neu addysg Gymraeg ac mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas sydd o fewn pellter rhesymol;
- (e) plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol, os yw'r ysgol honno wedyn wedi trefnu ei dosbarthiadau mewn ffordd sy'n peri y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd cam perthnasol pe na bai'r plant hynny yn ddisgyblion a eithrir;
- (f) plant personél y lluoedd arfog sydd wedi eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol;
- (g) plant sydd â gefell, neu sibling arall o enedigaeth luosog, wedi ei dderbyn fel disgyl nas eithrir;
- (h) plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd; ac
- (i) plant ag anghenion addysgol arbennig, a addysgir fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhai o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth arbennig.

Os daw'n bosibl, ar unrhyw adeg, ddarparu addysg i ddisgybl a eithrir mewn dosbarth babanod yn yr ysgol lle nad yw nifer y disgyblion yn uwch na'r terfyn (er enghraifft, oherwydd bod disgyl nas eithrir wedi gadael y dosbarth, neu ddosbarth babanod ychwanegol wedi ei greu, neu athro neu athrawes ychwanegol wedi ei benodi neu ei phenodi) bydd y plentyn hwnnw'n peidio â bod yn ddisgybl a eithrir (rheoliad 5(2)).

Bydd yr eithriadau mewn perthynas â phlant a oedd gynt yn derbyn gofal, plant personél y lluoedd arfog a gefeiliailid neu siblingiaid eraill o enedigaethau lluosog yn gymwys mewn perthynas â derbyniadau o'r flwyddyn ysgol 2014/2015 ymlaen. Bydd pob eithriad arall yn gymwys o'r flwyddyn ysgol 2013/2014 ymlaen.

- (b) children who are looked after by local authorities, or who have ceased to be looked after ("previously looked after children") as a result of being adopted or being placed with a family or given a special guardian and are admitted to the school outside a normal admission round;
- (c) children initially refused admission to a school but subsequently offered a place outside a normal admission round by direction of an Admission Appeal Panel, or because the person responsible for making the original decision recognises that an error was made in implementing the school's admission arrangements;
- (d) children who the maintaining local authority confirmed cannot gain a place at any other suitable school within a reasonable distance of their home because they have moved into the area outside the normal admission round, or they desire a religious education, or a Welsh speaking education and the school in question is the only suitable school within a reasonable distance;
- (e) children who were admitted to the school outside the normal admission round after which the school has arranged its classes the effect of which would mean that the school would have to take a relevant measure if such children were not excepted pupils;
- (f) children of armed forces personnel who are admitted outside the normal admission round;
- (g) children whose twin or other siblings from a multiple birth are admitted as non-excepted pupils;
- (h) children who are registered pupils at special schools, but who receive part of their education at a mainstream school; and
- (i) children with special educational needs who are normally educated in a special unit in a mainstream school, who receive part of their lessons in a non-special class.

If at any time it becomes possible for an excepted pupil to be provided with education at the school in an infant class in which the limit is not exceeded (for example, because a non-excepted child leaves the class, an additional infant class is created, or an additional teacher is appointed) that child ceases to be an excepted pupil (regulation 5(2)).

The exceptions in respect of previously looked after children, children of armed forces personnel and twins or other siblings from multiple births will apply in respect of admissions from the 2014/2015 school year. All other exceptions will apply from the 2013/2014 school year.

2013 Rhif 1141 (Cy.121)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Derbyniadau Ysgol  
(Meintiau Dosbarthiadau Babanod)  
(Cymru) 2013

Gwnaed 14 Mai 2013

Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru 17 Mai 2013

Yn dod i rym 8 Gorffennaf 2013

2013 No. 1141 (W.121)

EDUCATION, WALES

The School Admissions (Infant  
Class Sizes) (Wales) Regulations  
2013

Made 14 May 2013

Laid before the National  
Assembly for Wales 17 May 2013

Coming into force 8 July 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1) ac a freinir bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwysyo**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 8 Gorffennaf 2013.

(2) Mae paragraffau 4, 11 a 12 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2014/2015 a'r blynyddoedd dilynol.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cynnwys dosbarth babanod(3).

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 1 and 138(7) and (8) of the School Standards and Framework Act 1998(1) and now vested in them(2) make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

1.—(1) The title of these Regulations is the School Admissions (Infant Class Sizes) (Wales) Regulations 2013 and they come into force on 8 July 2013.

(2) Paragraphs 4, 11 and 12 of the Schedule to these Regulations apply in relation to the 2014/2015 school year and subsequent years.

(3) These Regulations apply in relation to any maintained school in Wales which contains an infant class(3).

(1) 1998 p.31; diwygiwyd adran 1 gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a pharagraff 87 o Atodlen 21 i'r Ddeddf honno; a chan O.S. 2010/1158.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) Gweler adran 4 o DSFFY 1998 am y diffiniad o 'infant class'.

(1) 1998 c.31; section 1 was amended by the Education Act 2002 (c.32); section 215(1) and Schedule 21, paragraph 87; and S.I. 2010/1158.

(2) The functions of the Secretary of State under these sections were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) See section 4 of the SSFA 1998 for the definition of 'infant class'.

## Dehongli

### 2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg addas" ("suitable education") mewn perthynas â phlentyn yw addysg amser llawn effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod gan y plentyn hwnnw;

ystyr "DA 1996" ("the EA 1996") yw Deddf Addysg 1996(1);

ystyr "DSFfY 1998" ("the SSFA 1998") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "plentyn sydd â datganiad" ("child with a statement") yw plentyn y cynhelir datganiad mewn perthynas ag ef o dan adran 324(1) o DA 1996(2).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid trin plentyn fel pe bai wedi ei dderbyn i ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol os yw paragraff (3) neu (4) yn gymwys.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os, ar yr adeg y derbyniwyd y plentyn i'r ysgol, nad oedd y plentyn yn dod o fewn grŵp oedran y derbynnyr y disgyblion sydd yn ddo i'r ysgol fel arfer.

### (4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn—

- (a) os oedd y plentyn, ar yr adeg y'i derbyniwyd i'r ysgol, yn dod o fewn grŵp oedran y derbynnyr y disgyblion sydd ynddo i'r ysgol fel arfer;
- (b) os oedd nifer y disgyblion yn y grŵp oedran hwnnw a oedd yn ceisio cael eu derbyn i'r ysgol, yn y flwyddyn ysgol pan dderbyniwyd y plentyn hwnnw i'r ysgol am y tro cyntaf, yn fwy na nifer y disgyblion yn y grŵp oedran hwnnw yr oedd yr awdurdod derbyn yn bwriadu eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn honno; ac
- (c) os cynigiwyd lle i'r plentyn yn yr ysgol ar ôl yr amser pan oedd yr awdurdod derbyn wedi penderfynu, yn unol â threfniadau derbyn yr ysgol, pa blant yn y grŵp oedran hwnnw oedd i gael eu derbyn i'r ysgol.

(5) Ym mharagraffau (2) i (4) mae'r cyfeiriadau at dderbyn plentyn i ysgol yn gyfeiriadau at dderbyn plentyn i ddosbarth babanod yn yr ysgol honno.

## Rheoliadau a Ddirymir

### 3. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998(3);

## Interpretation

### 2.—(1) In these Regulations—

"the EA 1996" ("DA 1996") means the Education Act 1996(1);

"the SSFA 1998" ("DSFfY 1998") means the School Standards and Framework Act 1998;

"child with a statement" ("plentyn sydd â datganiad") means a child in relation to whom a statement is maintained by a local authority under section 324(1) of the EA 1996(2);

"suitable education" ("addysg addas") in relation to a child, means efficient full-time education suitable to the child's age, ability and aptitude and any special educational needs that child may have.

(2) For the purposes of these Regulations a child is to be treated as having been admitted to a school outside the normal admission round where paragraph (3) or (4) applies.

(3) This paragraph applies where, at the time the child was admitted to the school the child did not fall within an age group in which pupils are normally admitted to the school.

### (4) This paragraph applies to a child where—

- (a) at the time of the child's admission to the school, the child fell within an age group in which pupils are normally admitted to the school;
- (b) the number of pupils in that age group seeking admission to the school in the school year in which the child was first admitted to the school was greater than the number of pupils which the admission authority intended to admit to the school in that age group in that year; and
- (c) the child was offered a place at the school after the time when the admission authority had determined, in accordance with the school's admission arrangements, which children in that age group were to be admitted to the school.

(5) In paragraphs (2) to (4) references to a child's admission to a school are references to the child's admission to an infant class at that school.

## Regulations Revoked

### 3. The following Regulations are revoked—

- (a) the Education (Infant Class Sizes) (Wales) Regulations 1998(3);

(1) 1996 c.56.

(2) Diwygiwyd adran 324(1) gan O.S. 2010/1158.

(3) O.S. 1998/1943.

(1) 1996 c.56.

(2) Section 324(1) was amended by S.I. 2010/1158.

(3) S.I. 1998/1943.

- (b) Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009(1).

- (b) the Education (Infant Class Sizes) (Wales) (Amendment) Regulations 2009(1).

### Terfyn ar feintiau dosbarthiadau babanod

4.—(1) Ni chaiff unrhyw ddisybl a eithrir mwy na 30 o ddisyblion tra bo sesiwn addysgu gyffredin yn cael ei chynnal gan un athro neu athrawes ysgol.

(2) Pan gynhelir sesiwn addysgu gyffredin gan fwy nag un athro neu athrawes ysgol, ni chaiff y dosbarth babanod gynnwys mwy na 30 o ddisyblion am bob un o'r athrawon hynny.

(3) Os yw dosbarth babanod yn cynnwys unrhyw ddisybl a eithrir (fel y'i diffinnir gan reoliad 5), mae'r terfynau ym mharagraffau (1) a (2) yn gymwys fel pe na ba'i'r disybl a eithrir wedi ei gynnwys yn y dosbarth.

### Disgyblion a eithrir

5.—(1) Disgybl a eithrir yw plentyn y mae unrhyw un o baragraffau 2 i 14 o'r Atodlen yn gymwys iddo.

(2) Nid yw plentyn yn ddisybl a eithrir mewn ysgol os gellid darparu addysg addas i'r plentyn hwnnw mewn dosbarth babanod yn yr ysgol honno heb orfod cymryd camau perthnasol.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "camau perthnasol" ("relevant measures") yw camau—

- (a) y byddai'n ofynnol eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a osodir gan adran 1(6) o DSFFY 1998; a
- (b) a fyddent yn niweidio'r ddarpariaeth o addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau.

### Limit on infant class sizes

4.—(1) No infant class may contain more than 30 pupils while an ordinary teaching session is conducted by a single school teacher.

(2) Where an ordinary teaching session is conducted by more than one school teacher, the infant class may not contain more than 30 pupils for every one of those teachers.

(3) Where an infant class contains any excepted pupil (as defined by regulation 5), the limits in paragraphs (1) and (2) apply as if the excepted pupil were not included in the class.

### Excepted pupils

5.—(1) An excepted pupil is a child to whom any of paragraphs 2 to 14 of the Schedule applies.

(2) A child is not an excepted pupil at a school if suitable education could be provided for that child in an infant class at that school without relevant measures having to be taken.

(3) In paragraph (2) "relevant measures" ("camau perthnasol") means measures which would—

- (a) be required to be taken to ensure compliance with the duty imposed by section 1(6) of the SSFA 1998; and
- (b) prejudice the provision of efficient education or the efficient use of resources.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2013

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

14 May 2013

---

(1) O.S. 2009/828 (Cy.75).

---

(1) S.I. 2009/828 (W.75).

**Disgyblion a Eithrir****1. Yn yr Atodlen hon—**

- (a) ystyr "plentyn" ("a child") yw plentyn sy'n ddisgybl mewn unrhyw ddosbarth babanod;
- (b) ystyr "yr ysgol" ("the school") yw'r ysgol y mae'r dosbarth babanod hwnnw'n rhan ohoni;
- (c) ystyr "lluoedd arfog" ("armed forces") yw'r Llynges Frenhinol, y Môr-filwyr Brenhinol, y fyddin reolaidd neu'r Llu Awyr Brenhinol;
- (d) ystyr "y fyddin reolaidd" ("the regular army") yw unrhyw un o luoedd milwrol Ei Mawrhydi ac eithrio—
  - (i) y Fyddin Wrth Gefn,
  - (ii) y Fyddin Diriogaethol, a
  - (iii) lluoedd a godwyd o dan gyfraith Tiriogaeth Dramor Brydeinig.

2. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sydd â datganiad, a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol, o ganlyniad i bennu'r ysgol honno gan yr awdurdod lleol yn natganiad y plentyn o dan adran 324(5)(b) o DA 1996.

3. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (o fewn ystyr adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(1)) ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.

4. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a oedd gynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ond a beidiodd â derbyn gofal o'r fath oherwydd iddo gael ei fabwysiadu(2) neu ddod yn destun gorchymyn preswylio(3) neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig(4), ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

5. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol ac y gwrthodwyd ei dderbyn i'r ysgol yn wreiddiol oherwydd methiant i weithredu trefniadau derbyn yr ysgol yn briodol, ond y cynigiwyd lle iddo yn ddiweddarach yn rhinwedd penderfyniad gan yr awdurdod derbyn bod methiant o'r fath wedi digwydd mewn perthynas â'r plentyn.

**Excepted Pupils****1. In this Schedule—**

- (a) "a child" ("plentyn") means a child who is a pupil in any infant class;
- (b) "the school" ("yr ysgol") means the school of which that infant class forms part;
- (c) "armed forces" ("lluoedd arfog") means the Royal Navy, the Royal Marines, the regular army or the Royal Air Force;
- (d) "the regular army" ("y fyddin reolaidd") means any of Her Majesty's military forces other than—
  - (i) the Army Reserve,
  - (ii) the Territorial Army, and
  - (iii) forces raised under the law of a British Overseas Territory.

2. This paragraph applies to a child with a statement admitted to the school outside a normal admission round as a result of the local authority specifying the school in the child's statement under section 324(5)(b) of the EA 1996.

3. This paragraph applies to a child who is looked after by a local authority (within the meaning of section 22(1) of the Children Act 1989(1)) and is admitted to the school outside a normal admission round.

4. This paragraph applies to a child who was previously looked after by a local authority but ceases to be so because the child was adopted(2) or became subject to a residence order(3) or a special guardianship order(4), and who was admitted to the school outside the normal admission round.

5. This paragraph applies to a child admitted to a school outside a normal admission round who was initially refused admission to the school owing to a failure to properly implement the school's admission arrangements, but was subsequently offered a place by virtue of a determination by the admission authority that there had been such a failure in relation to the child.

(1) 1989 p.41.

(2) O dan adran 46 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38).

(3) O dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989.

(4) O dan adran 14A o Ddeddf Plant 1989.

(1) 1989 c.41.

(2) Under section 46 of the Adoption and Children Act 2002 (c.38).

(3) Under section 8 of the Children Act 1989.

(4) Under section 14A of the Children Act 1989.

6. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol yn rhinwedd penderfyniad gan banel apêl yn unol ag adran 94(6) o DSFFY 1998.

7.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol, ac—

- (a) mewn perthynas â'r plentyn, yr ysgol honno yw'r unig ysgol (ac eithrio unrhyw ysgol y gwrthodwyd derbyn y plentyn iddi eisoes, neu y gwaharddwyd y plentyn ohoni yn barhaol) sydd—
  - (i) o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn, a
  - (ii) yn darparu addysg addas; a
- (b) nid oedd y plentyn, ar yr amser perthnasol, yn preswylio fel arfer mewn man a oedd o fewn pellter rhesymol o'r ysgol honno.

(2) Yn is-baragraff (1)(b) ystyr "yr amser perthnasol" ("the relevant time")—

- (a) mewn perthynas â phlentyn y mae rheoliad 2(3) yn gymwys iddo, yw'r amser y derbyniwyd i'r ysgol y mwyafriw o'r disgyblion yn y grŵp oedran y mae'r plentyn yn perthyn iddo; a
- (b) mewn perthynas â phlentyn y mae rheoliad 2(4) yn gymwys iddo, yw'r amser y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw.

(3) Nid yw plentyn yn ddisgybl a eithrir o dan y paragraff hwn oni fydd yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, iddo gael ei fodloni bod y plentyn yn bodloni'r meinu prawf a restrir yn is-baragraff (1)(a).

8.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol—

- (a) os dymunir cael addysg mewn ysgol o gymeriad crefyddol penodol, a
- (b) os yr ysgol honno yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "ysgol o gymeriad crefyddol penodol" ("a school of a particular religious character") yw ysgol y dynodir bod ganddi gymeriad o'r fath gan orchymyn a wnaed o dan adran 69(3) o DSFFY 1998.

(3) Os nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol dan sylw, ni fydd y plentyn yn ddisgybl a eithrir oni fydd yr awdurdod lleol wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, nad oes lleoedd ar gael mewn ysgol arall o'r cymeriad crefyddol penodol hwnnw o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

9.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol—

6. This paragraph applies to a child admitted to the school outside a normal admission round by virtue of a determination of an appeal panel in accordance with section 94(6) of the SSFA 1998.

7.—(1) Subject to sub-paragraph (3), this paragraph applies to a child admitted to the school outside a normal admission round—

- (a) in relation to whom the school is the only school (apart from any school to which the child has already been refused admission or from which the child has been permanently excluded) which—
  - (i) is within a reasonable distance from the child's home, and
  - (ii) provides suitable education; and
- (b) who did not, at the relevant time, ordinarily reside at a place which was within a reasonable distance from that school.

(2) In sub-paragraph (1)(b) "the relevant time" ("yr amser perthnasol")—

- (a) in relation to a child to whom regulation 2(3) applies, means the time when the majority of pupils in the age group in which the child falls were admitted to the school; and
- (b) in relation to a child to whom regulation 2(4) applies means the time referred to in sub-paragraph (c) of that paragraph.

(3) A child is not an excepted pupil under this paragraph unless the local authority who maintain the school have confirmed in writing that they are satisfied that the child fulfils the criteria listed in sub-paragraph (1)(a).

8.—(1) Subject to sub-paragraph (3), this paragraph applies to a child admitted to the school outside a normal admission round—

- (a) where education at a school of a particular religious character is desired, and
- (b) the school is the only such school within a reasonable distance of the child's home.

(2) In this paragraph "a school of a particular religious character" ("ysgol o gymeriad crefyddol penodol") means a school designated as having such a character by an order made under section 69(3) of the SSFA 1998.

(3) Where the admission authority for the school in question is not the local authority the child will not be an excepted pupil unless the local authority has confirmed in writing that there are no places available at another school of the particular religious character within a reasonable distance of the child's home.

9.—(1) Subject to sub-paragraph (3), this paragraph applies to a child admitted to the school outside a normal admission round—

- (a) os dymunir cael addysg mewn ysgol Gymraeg, a
- (b) os yr ysgol honno yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

(2) Yn is-baragraff (1) mae i "ysbol Gymraeg" ("*a school which is Welsh-speaking*") yr ystyr a roddir yn adran 105(7) o Ddeddf Addysg 2002.

(3) Os nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol dan sylw, ni fydd y plentyn yn ddisgybl a eithrir oni fydd yr awdurdod lleol wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, nad oes lleoedd ar gael mewn ysgol Gymraeg arall o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

**10. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn—**

- (a) os oedd y plentyn, ar yr adeg y'i derbynwyd i'r ysgol, yn dod o fewn grŵp oedran y derbynnyr y disgyblion sydd ynddo i'r ysgol fel arfer;
- (b) os oedd nifer y disgyblion yn y grŵp oedran hwnnw a oedd yn ceisio cael eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn dderbyn ysgol honno yn llai na nifer y disgyblion yn y grŵp oedran hwnnw y bwriedid eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn honno;
- (c) os cynigiwyd lle i'r plentyn yn yr ysgol ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol berthnasol; a
- (d) os yw'r ysgol wedi trefnu ei dosbarthiadau ar gyfer plant yn y grŵp oedran hwnnw sy'n ceisio cael eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn dderbyn ysgol honno ac, oni ellid darparu addysg addas i'r plentyn hwnnw mewn dosbarth babanod arall yn yr ysgol honno, y byddai derbyn y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau perthnasol.

**11. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn y mae ei riant yn y lluoedd arfog ac a dderbynwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.**

**12. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sydd â gefell iddo, neu sibling arall o enedigaeth luosog, wedi ei dderbyn i'r ysgol yn yr un grŵp oedran rywfodd ac eithrio fel disgybl a eithrir.**

**13. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig(1) ond sy'n derbyn rhan o'i addysg yn yr ysgol, drwy drefniant rhwng yr ysgol a'r ysgol arbennig.**

**14. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a addysgir fel arfer mewn uned sy'n rhan o'r ysgol ac a drefnwyd yn arbennig i ddarparu addysg i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, ond sy'n treulio lleiafrif o'i amser yn y dosbarth babanod.**

---

(1) Diffinnir 'special school' yn adran 337 o DA 1996. Diwygiwyd adran 337 gan adran 142(1) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p.25) a chan O.S. 2010/1158.

- (a) where education at a school which is Welsh-speaking is desired, and

- (b) the school is the only such school within a reasonable distance of the child's home.

(2) In sub-paragraph (1) "a school which is Welsh-speaking" ("ysbol Gymraeg") has the meaning given in section 105(7) of the Education Act 2002.

(3) Where the admission authority for the school in question is not the local authority the child will not be an excepted child under this paragraph unless the local authority has confirmed in writing that there are no places available at another Welsh-speaking school within a reasonable distance of the child's home.

**10. This paragraph applies to a child where—**

- (a) at the time of the child's admission to the school, the child fell within an age group in which pupils are normally admitted to the school;
- (b) the number of pupils in that age group seeking admission to the school in the admission school year was fewer than the number of pupils which it was intended to admit to the school in that age group in that year;
- (c) the child was offered a place at the school after the first day of the relevant school year; and
- (d) the school has organised its classes for children in that age group seeking admission to the school in the admission school year and, unless suitable education could be provided for the child in another infant class at that school, the admission of the child would require relevant measures to be taken.

**11. This paragraph applies to a child whose parent is in the armed forces and who was admitted to the school outside a normal admission round.**

**12. This paragraph applies to a child whose twin or other sibling from a multiple birth is admitted to the school in the same age group otherwise than as an excepted pupil.**

**13. This paragraph applies to a child who is a registered pupil at a special school(1) but by arrangement between the school and the special school, receives part of their education at the school.**

**14. This paragraph applies to a child who is normally educated in a unit which forms part of the school and is specially organised to provide education for pupils with special educational needs, but spends a minority of their time in the infant class.**

---

(1) 'Special school' is defined in section 337 of EA 1996. Section 337 was amended by the Education and Skills Act 2008 (c.25), section 142(1) and S.I. 2010/1158.

**15.** Nid yw paragraffau 3 i 12 yn gymwys i blentyn sydd â datganiad.

---

© Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**15.** Paragraphs 3 to 12 do not apply to a child with a statement.

---

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2013 Rhif 1141 (Cy.121)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Derbyniadau Ysgol  
(Meintiau Dosbarthiadau Babanod)  
(Cymru) 2013

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 No. 1141 (W.121)**

**EDUCATION, WALES**

The School Admissions (Infant  
Class Sizes) (Wales) Regulations  
2013

£5.75

W1597/05/13

ON

ISBN 978-0-348-10753-1



9 780348 107531